

Cofnodion / Minutes

Nid yw hi'n bosib cynnal cyfarfod llawn o'r Cyngor yn bersonol.
Felly, penderfynwyd i cynnal cyfarfod ar-lein yn lle
ar nos Fercher, 29ain Fedi 2021 am 6.30y.h..

*It is not possible to hold a full meeting of the Council in person.
Therefore, it was decided to hold an online meeting instead
on Wednesday, 29th September 2021 at 6.30pm.*

Presennol / Present: Mr Arwyn Jones **AJ** (Is-Cadeirydd / Vice Chairperson), Mr
Cenwyn Williams **CW**, Cynghorydd Mr Eric W. Jones (CSYM) **EWJ**, Cynghorydd Mr
Dafydd Roberts (CSYM) **DR**, Mrs Lynn Hervouet (Clerc presennol / Current clerk) **LH**.

Ymddiheuriadau / Apologies: Ms Sandra Thomas **ST** (Cadeirydd / Chairperson)

Yn absennol / Absent:

Aelod o'r cyhoedd / Member of the public: Mrs Nia Hall (Ysgrifenyddes pwyllgor Y
Ganolfan - *Secretary of Y Ganolfan's committee*)

1. Croeso / Welcome

Cadeiriwyd y cyfarfod gan **AJ** ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol. / *The meeting was chaired by AJ and all present were welcomed.*

2. Y Clerc / The Clerk

Roedd clerc newydd wedi'i benodi ond, yn anffodus, mae wedi penderfynu nid y fo
yw'r person gorau ar gyfer y swydd. Dyma'r cyfarfod olaf i'r clerch presennol. Bydd yn
rhaid i'r cyngor ail-hysbysebu'r swydd ar gyfer clerch newydd. Bydd **LH** yn cysylltu
gyda CSYM i egluro y sefyllfa. / *A new clerk had been appointed but unfortunately he
has decided that he is not the best person for the job. This is the last meeting for the
current clerk. The council will have to re-advertise the post for a new clerk. LH will
contact IoACC to explain the situation.*

3. Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

9.1.1 - Datganwyd diddordeb gan **EWJ** ar gyfer cais cynllunio yn Tyn Pwll. / **EWJ**
declared an interest for planning application in Tyn Pwll.

9.1.1 - Datganwyd diddordeb gan **DR** ar gyfer cais cynllunio yn Bodlawen. / **DR**
declared an interest for planning application in Bodlawen.

4. Ymweliad gan Mrs Hall. / Visit from Mrs Hall.

Mrs Hall yn derbyn y gwahoddiad i ddod i'r cyfarfod heno i drafod Y Ganolfan. / *Mrs Hall accepts the invitation to attend the meeting tonight to discuss Y Ganolfan.*

Mae Mrs Hall yn gobeithio y bydd y Ganolfan yn ailagor yn fuan iawn. Mae ychydig o bobl y pentref wedi dod ymlaen â diddordeb mewn ymuno â phwyllgor y Ganolfan i alluogi ailagor yr adeilad. / *Mrs Hall hopes Y Ganolfan will re-open very soon. A few people in the village have come forward with an interest in joining the Ganolfan's committee to enable the re-opening of the building.*

Mae angen trefnu dyddiad cyn gynted â phosibl ar gyfer cyfarfod blyneddol y Ganolfan. Bydd angen i aelodau'r Cyngor Cymuned fynychu'r cyfarfod fel y nodwyd yng nghyfansoddiad Y Ganolfan. Mae'n debygol mai cyfarfod wyneb yn wyneb bydd hwn. / *A date needs to be set as soon as possible for Y Ganolfan's annual meeting. Community Council members will be required to attend the meeting as stated in Y Ganolfan's constitution. This is likely to be a face to face meeting.*

Mae cyn-Gadeirydd y Ganolfan wedi dod ymlaen i gynnig i fod yn trysorydd dros dro i'r Ganolfan nes bod y clerc newydd wedi'i benodi. / *The former Chairperson of Y Ganolfan has come forward to propose as a temporarily treasurer to the Ganolfan until the new clerk has been appointed.*

Mae yna ychydig o sefydliadau sydd â diddordeb i ailafael yn eu sesiynau yn Y Ganolfan yn fuan iawn. / *There are a few organisations with an interest to resume their sessions at Y Ganolfan very soon.*

5. Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd / Elect Chairperson and Vice-chairperson

Penderfynwyd i ohurio ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd tan cyfarfod mis Ionawr 2022. / *It was decided to defer the election of Chairperson and Vice Chairperson until January 2022's meeting.*

6. Cofnodion Cyfarfod Diwethaf 05/07/21. / Minutes of last meeting 05/07/2021.

Derbyniwyd y cofnodion 05/07/21 yn gywir, Cynigwyd gan **CW**, Eiliwyd gan **AJ**.
The minutes 05/07/21 were confirmed correct, Proposed by CW, Seconded by AJ.

7. Balans ar 01/09/2021. / Balance on 01/09/2021.

Cyfrif Cyfredol "Community" (ar 01/09/2021)		£10,189.97
Cynilo "BMM" (ar 01/09/2021)	-	£ 7,062.26
	=	£17,252.23

Y Ganolfan - Balans yn y banc ar 22/09/2021. / Y Ganolfan Bank balance on 22/09/2021.

Cyfrif "Community" (ar 22/09/2021)	-	£ 5,928.18
------------------------------------	---	-------------------

Cynilo "BMM" (ar 22/09/2021)	-	£ 3,319.16
	=	£ 9,247.34

8. Cyllid / Finance

8.1 Biliau sydd wedi ei dalu / Bills that have been paid

£775.00 - Cyflog y clerc (Ebrill, Mai, Mehefin 2021) / *Clerks wages (April, May, June 2021)*

£100.00 - Gwaith am archwilio cyfrifon a dogfennau a paratoi adroddiad ar gyfer Archwiliad Allanol & Ffurflen Blynnyddol y Cyngor am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2021. / *Work for auditing accounts and documents and preparing a report for the Council's External Audit & Annual Return for the period up to 31 March 2021.*

£14.50 - Adnoddau swyddfa - inc du i'r printar / *Office supplies - black ink for printer*

£94.80 - ROSPA Archwiliad blynnyddol 2021 / *ROSPA's Annual inspection 2021*

£4.94 - I **LH** am postio cyfrifon blynnyddol i'r archwilwyr allanol. / *To LH for posting the yearly accounts to the external auditors.*

£582.00 - Brookes Tarpaulins am netiau newydd i cae peldroed / *For the new nets in the football pitch*

8.2 Biliau iw dalu / Bills for payment

£135.20 - I **LH** am ad-daliad am TWE cyflog y clerc ers Mehefin 2019 / *To LH for re-payment of PAYE on clerks wages from June 2019*

£957.89 - G L Jones am adnewyddu offer yn cae chwarae / *G L Jones for renewing equipment in the playing field*

£17.00 - Llanfairpwll Poppy Appeal am un torch pabi ar gyfer Sul y Cofio. / *Llanfairpwll Poppy Appeal for one poppy wreath for Remembrance Sunday.*

£35.00 - Ad-daliad i Mrs Hall am ail fin ar gyfer Casgliad Gwastraff Gwyrdd i'r pentref / *Re-payment to Mrs Hall for a second bin for Green garden waste for the village*

Cynigwyd gan **AJ**, Eiliwyd gan **CW**. / *Proposed by AJ, Seconded by CW.*

£775.00 - Cyflog y clerc (Gorffennaf, Awst, Medi 2021) / *Clerks wages (July, August, September 2021)*

8.3 Taliadau wedi Derbyn / Payments Received

£62.07 - Taliad 'Wayleave' gan Scottish Power / *'Wayleave' payment from Scottish Power.*

£135.20 - Am ad-daliad am TWE cyflog y clerc ers Mehefin 2019 / *Re-payment of PAYE on clerks wages from June 2019*

£4,517.48 - Praesept taliad 2il gan C.S.Y.M.. / *2nd precept payment from I.O.A.C.C..*

£0.16 - Llog banc i cyfrif "BMM" / *Bank interest for "BMM" account.*

8.4 Adroddiad Cyllidol Chwarterol Gorffennaf - Medi 2021. / Quarterly Financial Report July - September 2021.

Ebostwyd yr adroddiad cyllidol chwarterol ar gyfer Gorffennaf - Medi 2021 gyda'r agenda i'r cynghorwyr. / *The quarterly financial report for July - September 2021 was emailed with the agenda to the members.*

Trafodwyd y cyfrifon yn ystod y cyfarfod. Derbyniwyd bod y cyfrifon yn gywir a diolchwyd i'r clerc am ei gwaith. / *The accounts were discussed during the meeting. The accounts were accepted as accurate and the clerk was thanked for her work.*

Cynigwyd gan **AJ**, Eiliwyd gan **EWJ**. / *Proposed by AJ, Seconded by EWJ.*

9. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

9.0.1 Cae Chwarae. / Playing field.

Mae angen gweithredu'n ar y materion mewn coch yn adroddiad ROSPA. Mae **CW** mewn cysylltiad â chwmni atgyweirio offer cae chwarae. / *The issues in red in the ROSPA report need action. CW is in contact with a playground equipment repair company.*

Mae'r bin cyhoeddus bach du ger y cae peldroed wedi cael ei fandaleiddio a'i daflu i'r cae. Mae angen rhoi gwybod i'r heddlu. / *The small black public bin near the football pitch has been vandalised and thrown into the field. The police need to be informed.*

Mae'r arwyddion canlynol wedi'u torri: Dim cŵn, Dim ysmegu, Cadw pellter cymdeithasol. Nid yw'r Cyngor Cymuned wedi talu am yr arwyddion yma eto. Mae angen rhoi gwybod i'r heddlu. / *The following signs have been broken: No dogs, No smoking, Keeping social distance. These signs have not yet been paid for by the Community Council. The police need to be informed.*

9.0.2 Cae Pêl Droed / Playground Football Field

Nid oedd unrhyw faterion mewn coch yn adroddiad ROSPA. / *There were no issues in red in the ROSPA report.*

9.0.3 Mandad y banc / Bank mandate

Mae mandad banc wedi'i gwblhau a'i anfon i'r banc. / *Bank mandate has been completed and sent to the bank.*

9.0.4 Archwiliad Allanol o Cyfrifon y Cyngor 2020/2021. / External Audit of Council Accounts 2020/2021.

Mae'r clerc wedi postio'r cyfrifon a'r gwaith papur perthnasol i'r archwilwyr allanol. Derbynniwyd ebost gan yr archwilwyr allanol yn gofyn am wybodaeth ychwanegol i wneud gyda cyflog y clerc. Y clerc wedi ymateb i'r ebost. / *The clerk has posted the relevant accounts and paperwork to the external auditors. An email was received from the external auditors requesting additional information to do with the clerk's salary. The clerk has responded to the email.*

Mae Archwilio Cymru wedi ebostio heddiw i ddweud y bydd yr adroddiad gan yr archwilwyr allanol yn hwyr eleni a bydd angen i gynghorau cymunedol hysbysebu'r ddogfen mewn man cyhoeddus yn ogystal ag ar eu gwefan. / *Audit Wales has*

emailed today to say that the report from the external auditors will be late this year and community councils will need to advertise the document in a public place as well as on their website.

9.0.5 Mynediad giat o lôn fawr / *Gate access from the main road*

Mae'r clerc wedi gyrru llythyr at y cyfreithiwr. Nid rydym wedi derbyn ymateb. / The clerk has sent a letter to the solicitor. We have not received a response.

9.0.6 Hen adeilad llyfrgell Criccieth / *Criccieth old library building*

Derbynniwyd ebost gan Age Well yn esbonio nad ydynt eisiau eu tynnu fewn i mater yma. Mae'r clerc wedi derbyn ebost gan Gyngor Tref Criccieth. Yn dilyn trafodaeth, mae pawb wedi penderfynu mai opsiwn 3 ydi'r ora i bawb. / An email was received from Age Well explaining that they do not want to be dragged into this issue. The clerk has received an email from Criccieth Town Council. Following discussion, everyone has decided that option 3 is the best for everyone.

9.0.7 Charity Commission

Mae'r gwybodaeth wedi'i diweddarau ar gwefan Charity Commission ar ran Elis Griffiths Playing Field. / The information has been updated on Charity Commission's website on behalf of Elis Griffiths Playing Field.

8.0.8 Sul y Cofio / *Remembrance Sunday*

Mae'r clerc wedi archebu un torch pabi ar gyfer Dydd Sul, 14eg Tachwedd. / The clerk has ordered one poppy wreath for Sunday 14th November.

9.0.9 Llwybrau cyhoeddus angen eu torri am yr eilwaith. / *Public footpaths need to be cut for a second time.*

Mae angen cysylltu gyda'r contractwr i ofyn iddo dorri pob llwybr am yr eildro fel y nodwyd yn y cytundeb. / The contractor needs to be contacted to ask him to cut all public footpaths for a second time as stated in the agreement.

9.1.0 Peiriant bagiau baw ci / *Dog bag dispenser*

Mae'r peiriant ger yr ysgol wedi ei fandeleiddio yn ddiweddar ac yn cael ei cam ddefnyddio yn rheolaidd. Mae angen rhoi gwybod i'r heddlu. / The machine near the school has recently been vandalised and is being abused regularly. The police need to be informed.

10. Cynllunio / *Planning*

10.1.1 Ceisiadau / *Applications*

FPL/2021/218, Tyn Pwll, Brynsiencyn - Cais llawn ar gyfer codi annedd ac modurdy dwbl ar wahan ar dir yn / *Full application for the erection of a dwelling and detached double garage on land at* **Dim gwrthwynebiad / *No objection***

LUE/2021/19, Bodlawen, Llanidan, Brynsiencyn - Cais am Dystysgrif Datblygu

Cyfreithlon ar gyfer defnydd presennol yr annedd a gymeradwywyd o dan 37C53A/DA yn groes i'w ganiatâd cynllunio a'i amodau cyn cychwyn ac amodau eraill yn / *Application for a Lawful Development Certificate for the existing use of the*

dwelling approved under 37C53A/DA in breach of its planning permission and its pre-commencement and other conditions at **Dim gwrthwynebiad / No objection**

FPL/2021/254, Idan House, Ffordd Brynsiencyn / Brynsiencyn Road, Brynsiencyn - Cais llawn ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol i uned gwyliau yn / *Full application for conversion of the outbuilding into a holiday unit at* **Dim gwrthwynebiad / No objection**

10.1.2 Penderfyniadau / *Decisions*

HHP/2021/215, Barras Bach, Brynsiencyn - Cais llawn ar gyfer dymchwel y garej bresenol a codi anecs yn / *Full application for the demolition of existing garage and erection of an annexe at*

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 / TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990 RHYBUDD PENDERFYNIAD

Darllenwch yr amodau a restrir isod yn ofalus os gwelwch yn dda, efallai y bydd angen cyflawni rhai o'r amodau cyn, neu yn ystod, y gwaith datblygu. Mae eich cais wedi cael ei ystyried gan y Cyngor yn unol â'i awdurdod dan y Ddeddf uchod, a rhoddwyd **CANIATÂD** gyda'r amodau canlynol:-

(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn. Rheswm: I gydymffurfio gyda gofynion Adran 91(1) o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y diwygiwyd).

(02) Bydd gwaith ar y datblygiad a ganiateir yma yn cael ei gyflawni mewn modd a fydd yn cydymffurfio'n llwyr â'r manylion a ddangosir ar y cynlluniau a nodir isod, manylion sydd wedi eu cynnwys mewn unrhyw ddogfennau a gyflwynwyd gyda chais o'r fath oni bai eu bod wedi eu cynnwys yn narpariaethau'r amodau sy'n rhan o'r caniatâd cynllunio hwn:

· D650.07: Cynllun safle arfaethedig

· D650.08: Cynllun llawr, edrychiadau a toriadau arfaethedig

Rheswm: Sicrhau bod y datblygiad yn cael ei weithredu'n unol â'r manylion a gymeradwywyd.

(03) Ni chaniateir, ar unrhyw adeg, ddefnyddio'r anecs y rhoddir caniatâd iddo yma ac eithrio at ddibenion ategol i'r defnydd preswyl a wneir o'r annedd a adnabyddir fel Barras Bach.

Rheswm: Diffinio sgôp y caniatâd hwn.

Y cynllun datblygu sy'n berthnasol i Ynys Môn yw'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (2017). Roedd y polisiau canlynol yn berthnasol i'r sylw a roddwyd i'r cais hwn: AMG 1, PCYFF 2, PCYFF 3

HHP/2021/182, Bodowyr, Llangaffo - Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn / Full application for alterations and extensions at

RHYBUDD PENDERFYNIAD

Darllenwch yr amodau a restrir isod yn ofalus os gwelwch yn dda, efallai y bydd angen cyflawni rhai o'r amodau cyn, neu yn ystod, y gwaith datblygu.

Mae eich cais wedi cael ei ystyried gan y Cyngor yn unol â'i awdurdod dan y Ddeddf uchod, a rhoddwyd **CANIATÂD** gyda'r amodau canlynol:-

(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.

Rheswm: I gydymffurfio gyda gofynion Adran 91(1) o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y diwygiwyd).

(02) Bydd gwaith ar y datblygiad a ganiateir yma yn cael ei gyflawni mewn modd a fydd yn cydymffurfio'n llwyr â'r manylion a ddangosir ar y cynlluniau a nodir isod, manylion sydd wedi eu cynnwys mewn unrhyw ddogfennau a gyflwynwyd gyda chais o'r fath oni bai eu bod wedi eu cynnwys yn narpariaethau'r amodau sy'n rhan o'r caniatâd cynllunio hwn:

A-00-02: Cynllun safle bloc

A-03-01: Cynllun llawr gwaelod arfaethedig

A-03-02: Cynllun llawr cyntaf arfaethedig

A-03-03: Edrychiadau arfaethedig

RTA.59.001:Asesiad o Effaith Coedyddiaeth a Datganiad Dull - Awst 2021

D.RTA.59.01: Cynllun Diogelu Coed

Rheswm: Sicrhau bod y datblygiad yn cael ei weithredu'n unol â'r manylion a gymeradwywyd.

(03) Rhaid diogelu'r holl goed a ddangosir yng Nghynllun Diogelu Coed Rob Taylor Arboriculture (RTA)

D.RTA.59.01 gyda ffensys cryf fel y nodir. Rhaid codi'r ffensys yn unol â'r manylion cyn dod ag unrhyw offer, peiriannau neu ddeunyddiau i'r safle at ddibenion y datblygiad, a rhaid eu cynnal nes bod yr holl offer, peiriannau a deunyddiau dros ben wedi eu tynnu o'r safle. Ni chaiff unrhyw beth ei storio na'i osod o fewn unrhyw ardal wedi'i ffensio, a ni chaiff lefelau'r ddaear yn yr ardaloedd hyn eu newid, a ni wneir unrhyw gloddio.

Rheswm: Sicrhau bod coed a ddiogelir gan Orchymyn Cadw Coed yn cael eu hamddiffyn.

(04) Rhaid i'r Asesiad o Effaith Coedyddiaeth a Datganiad Dull RTA a cynllun D.RTA.59.01 a gafodd ei gyflwyno i gefnogi y cais cael ei ddilyn yn llawn a fel y nodir yn Adran 6 o'r adroddiad, gan arbenigwr coed â chymwysterau addas. Rheswm: Sicrhau bod coed a ddiogelir gan Orchymyn Cadw Coed yn ddianaf. Y cynllun datblygu sy'n berthnasol i Ynys Môn yw'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (2017). Roedd y polisïau canlynol yn berthnasol i'r sylw a roddwyd i'r cais hwn: PCYFF 2, PCYFF 3

11. Gohebiaethau drwy ebyst / Correspondence via emails

Rhestrwyd gohebiaethau yn llawn yn agenda'r cyfarfod. / *Correspondence received was listed in full in the meeting's agenda.*

12. Adroddiadau gan y cynghorwyr sir. / Reports from the county councillors.

12.1 Adroddiad Cynghorydd EWJ / Councillor EWJ Report

Dim i'w adrodd / *Nothing to report*

12.2 Adroddiad Cynghorydd DR / Councillor DR Report

Mae'r Pwyllgor Gwaith (CSYM), wedi cyfarfod yn trafod y gyllideb. Mae'r cyngor wedi dioddef colled ariannol oherwydd colli incwm a chostau ychwanegol i wneud gyda coronafeirws. / *The Executive (IoACC), has met to discuss the budget. The council has suffered financial loss due to loss of income and extra costs to do with coronavirus.*

Mae'r CSYM yn adrodd bod ffigurau ailgylchu o flwyddyn i flwyddyn wedi gostwng nifer o %, efallai oherwydd eu bod wedi cyflwyno tâl blyneddol o £35 am gasglu gwastraff gardd biniau gwyrdd? / *The IoACC reports that year-on-year recycling figures have fallen by a number of %, perhaps because they have introduced an annual charge of £35 for collecting green bin garden waste collection?*

Oherwydd diffyg staff, nid yw'r adran gynllunio yn CSYM yn cyflawni ei thargedau ar geisiadau cynllunio. / *Due to staff shortages, the planning department at IoACC is not meeting its targets on planning applications.*

Mae ymatebion ysgrifenedig yn cael eu hateb yn hwyr oherwydd diffyg staff, felly, mae'r cyngor yn methu eu targedau. / *Written responses are late being answered due to staff shortages, therefore, the council are missing their targets.*

13. Unrhyw Fater Arall (gyda chaniatad y Cadeirydd) / Any Other Business (with permission from the Chairperson)

Nid oedd gan aelodau unrhyw beth i'w adrodd. / *Members had nothing to report.*

Diolchwyd i'r clerc am ei gwaith caled yn ystod ei chyfnod fel clerc i'r Cyngor Cymuned. / *The clerk was thanked for her hard work during her time as clerk to the Community Council.*

14. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting

14.1 Nos Fawrth, 26/10/2021 am 6.30y.h. ar-lein.

Tuesday Evening, 26/10/2021 at 6.30pm online.

14.2 Diolchodd yr Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod. Clwyd y cyfarfod am 7.50y.h.. / *The Chairperson thanked members for attending the meeting.*

Meeting closed at 7.50pm.

Arwyddwyd – Cadeirydd / Signed – Chairperson

Dyddiad / Date: